

Canllaw ynghylch y Cynllun Pontio

Crynodeb o ganllawiau allweddol Llywodraeth Cymru

- Nod cynlluniau pontio yw cefnogi a gwella'r cysylltiadau rhwng ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd sy'n bwydo, gan ganolbwyntio'n benodol ar gydwethio i gefnogi cynnydd cydlynol gan ddysgwyr, cefnogi anghenion a llesiant cyffredinol dysgwyr, a sicrhau cyflymder a her briodol yn y ffordd y mae ysgolion yn ymdrin â chynnydd wrth ddatblygu eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu.
- Ar gyfer Rheoliadau Pontio 2022, mae'n rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion uwchradd a gynhelir ac ysgolion cynradd sy'n bwydo lunio un cynllun pontio ar y cyd i gefnogi'r broses o helpu dysgwyr i bontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. Gall y ddarpariaeth ar gyfer ysgolion cynradd unigol sy'n bwydo, fel rhan o'r cynllun hwnnw fod yn wahanol, ond dim ond un cynllun sydd ei angen dan ofal yr ysgol uwchradd.
- Bydd angen i bob ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo roi cynlluniau pontio newydd ar waith i gefnogi'r broses bontio o dan y Cwricwlwm i Gymru.
- Mae'n rhaid llunio'r cynlluniau cyntaf a'u rhoi ar waith o 1 Medi 2022 i gefnogi'r broses o bontio'r garfan gyntaf o ddysgwyr sy'n symud o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 o dan y Cwricwlwm i Gymru yn ystod haf 2023, yn barod ar gyfer blwyddyn ysgol 2023 i 2024.

O dan **Reoliadau Pontio 2022**, mae'n rhaid i gynlluniau pontio ymdrin â'r materion canlynol: <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2022/566/contents/made>

- Cynigion ar gyfer rheoli a chydgyssylltu'r broses bontio yn gyffredinol o'r ysgolion cynradd sy'n bwydo i'r ysgolion uwchradd i ddysgwyr
- Cynigion ar gyfer sut y bydd parhad dysgu yn cael ei sicrhau yn gyffredinol drwy gynllunio'r cwricwlwm a chynllunio ar gyfer dysgu ac addysgu i ddysgwyr ym Mlwyddyn 6 sy'n pontio i Flwyddyn 7.
- Cynigion ar gyfer sut y caiff cynnydd dysgwr unigol ei gefnogi wrth iddo bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd
- Cynigion ar gyfer sut y caiff anghenion dysgu a llesiant pob dysgwr unigol eu cefnogi wrth iddynt bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd
- Cynigion ar gyfer adolygu a monitro effaith y cynllun pontio o ran sut mae wedi helpu i:
 - sicrhau parhad dysgu
 - cefnogi cynnydd dysgwyr unigol

Mae'r ddogfen hon yn darparu fformat enghreifftiol o 'Gynllun Pontio Clwstwr' ac yn cynnwys awgrymiadau sy'n deillio o ddeddfwriaeth a chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru. Argymhellir bod pob ysgol yn darllen y canllawiau swyddogol - gellir eu gweld [yma](#) - cyn cwblhau'r broses hon, ac yn addasu'r ddogfen hon i gyd-fynd ag anghenion yr ysgolion dan sylw.

Cynllun Pontio Clwstwr o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd

Clwstwr Ysgol Uwchradd:

Clwstwr Ysgolion Cynradd/Ysgolion Cynradd sy'n Bwydo : Y Strade

1. Cynigion ynghylch rheoli a chydgysylltu'r broses bontio o'r ysgolion cynradd sy'n bwydo i'r ysgol uwchradd i ddysgwyr.

Awgrymiadau ar gyfer y cynnwys:

- Rhaglen eang a chytbwys o weithgareddau sy'n cyflawni amcanion y canllawiau ar draws y blynyddoedd pontio allweddol, gan amlinellu'r ddarpariaeth ar gyfer y grwpiau amrywiol o ddysgwyr yn seiliedig ar eu hanghenion unigol. (Mae'r canllawiau diweddar yn canolbwyntio ar Flwyddyn 6 a 7, ond gellir hefyd ystyried cynnwys gweithgareddau ar gyfer disgyblion Blwyddyn 5).
- Dylai'r rhaglen bontio amlinellu gweithgareddau strategol/y staff a gweithgareddau'r disgyblion.
- Manylion ynghylch staffio, adnoddau a gwariant.


(Enghraifft bosibl o 'Drosolwg o Raglen Bontio' i'r rhai sydd heb fan cychwyn neu drosolwg blaenorol i'w ddatblygu.)

Trosolwg o Raglen Bontio 2025-26

Ysgol y Strade

	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6 - Tymhorau'r Hydref, y Gwanwyn a'r Haf		Blwyddyn 7	
Cymorth Pontio Cyffredinol		<ul style="list-style-type: none"> • Diwrnod 'Oh la la' – diwrnod ITM a Llythrennedd Corfforol i bob dysgwr bl.6. • Adnoddau ITM wedi ei ddarparu i ysgolion cynradd er mwyn cyfoethogi profiad y dysgwyr o ieithoedd byddant yn astudio yn Y Strade. 		<ul style="list-style-type: none"> • Ymweliadau i ysgolion unigol (HJ/HW/CH) er mwyn casglu gwybodaeth am lesiant dysgwyr sydd yn trosglwyddo. • Diwrnodau blasu fesul ysgolion unigol. • Diwrnod blasu fel blwyddyn gyfan. 	<ul style="list-style-type: none"> • Diwrnodau anwytho yn yr ysgol uwchradd ar ddechrau'r flwyddyn. Bl.7 a 'r 6ed yn unig ar y safle.
<p>Datblygu cyd ddealltwriaeth o gynnydd 'Effeithiolrwydd y dysgwr' / Darllen / Rhifedd ac Ysgrifennu;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Teulu'r Strade yn ymrwymo gyda 'Parod am lwyddiant' / 'Primed for Success' - Gwella cysondeb mewn dulliau addysgol a defnyddir mewn mathemateg ar draws y clwstr. • Rhannu arferion a llyfrau dysgwyr er mwyn datblygu cyd ddealltwriaeth o gynnydd yn y meysydd uchod. 					
Cymorth Cyffredinol Estynedig	<ul style="list-style-type: none"> • Ymweliadau cyson i'r Strade yn ystod blwyddyn 5 er mwyn anwytho dysgwyr ac i ymateb i anghenion unigolion. 	<ul style="list-style-type: none"> • Ymweliadau cyson i'r Strade yn ystod blwyddyn 6 er mwyn anwytho dysgwyr ac i ymateb i anghenion unigolion. 			
Cymorth â'r Adolygiad Pontio	<ul style="list-style-type: none"> • Ymweliadau i ysgolion unigol gan CADY'r Strade (HW). • Diwrnodau penodol wedi ei gynllunio i gefnogi trosglwyddiad. 	<ul style="list-style-type: none"> • Ymweliadau cyson i'r Strade yn ystod blwyddyn 6 er mwyn anwytho dysgwyr ac i ymateb i anghenion unigolion. 			
Cymorth Pontio Uwch	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfleoedd cyson i ddysgwyr sydd ag anghenion difrifol, cymhleth a pharhaus i ymweld â'r ysgol o dan arweiniad NW. 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfleoedd cyson i ddysgwyr sydd ag anghenion difrifol, cymhleth a pharhaus i ymweld â'r ysgol o dan arweiniad HW. 			

(I gael rhagor o wybodaeth am y diffiniadau uchod o grwpiau dysgwyr cysylltiedig ag ADY, ewch i'r canllawiau atodol [yma](#) neu isod)



2. Parhad dysgu / cynllunio'r cwricwlwm a chynllunio ar gyfer dysgu ac addysgu i ddysgwyr ym Mlwyddyn 6 sy'n pontio i Flwyddyn 7

Mae'r teulu yn gweithio o dan fodel "Primed for Success" eleni sy'n seiliedig ar addysgeg fathemategol. O dan arweiniad Miss Laura Davies, fe dydd y teulu yn elwa mewn sawl ffordd;

- **Cydweithio proffesiynol:** Mae'r model yn meithrin partneriaethau cryf rhwng athrawon cynradd ac uwchradd, gan rannu arferion gorau a dulliau addysgu effeithiol ym maes mathemateg.
- **Dilyniannau dysgu cyson:** Mae clwstwr yn sicrhau bod dilyniant clir rhwng y camau cynnydd, gan osgoi ailadrodd ac adeiladu ar wybodaeth flaenorol.
- **Datblygu hyder athrawon:** Trwy hyfforddiant a chymorth ar y cyd, mae athrawon yn datblygu eu hyder a'u medrusrwydd i addysgu mathemateg yn effeithiol ar draws y cyfnodau.

- **Canolbwyntio ar anghenion dysgwyr:** Mae'r dull yn galluogi ysgolion i adnabod anghenion penodol dysgwyr yn gynnar a chynllunio darpariaeth wedi'i theilwra wrth bontio i'r uwchradd.
- **Monitro cynnydd yn effeithiol:** Mae'r model yn annog dulliau asesu cyson a chydlynol sy'n helpu i olrhain cynnydd mathemategol disgyblion o'r cynradd i'r uwchradd.
- **Creu diwylliant dysgu cyson:** Mae clwstwr yn meithrin ethos cyffredin o ragoriaeth mathemategol, gan godi dyheadau disgyblion a chryfhau eu hunaniaeth fel dysgwyr.

3. Cynnydd dysgwr unigol wrth iddo bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Gweithgareddau cyffredinol;

Mae'r Cyd-Gysylltydd Pontio yn gyfrifol am gyd-gysylltu a datblygu'r holl broses o bontio a throsglwyddo disgyblion Blwyddyn 6 o'r ysgolion cynradd i Ysgol Strade.

Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys y gweithgareddau canlynol:

- trefnu noson 'Y Strade ar waith' i ddarpar rieni a disgyblion Bl 5 a 6 cyn hanner tymor yr Hydref.
- ymweld â phob dosbarth Blwyddyn 6 yn ystod y flwyddyn i gynnal sesiynau torri'r îâ er mwyn dod i adnabod y plant.
- trefnu ymweliadau â Strade yn ystod y flwyddyn ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 gyda'r nod o roi blas ar naws yr ysgol a'r math o waith a wneir ynddi e.e Diwrnod Oh la la (miri leithioedd Tramor), her mini marathon, diwrnod o ddilyn gwersi ac ymweld fel ysgolion unigol.
- Trefnu Noson i Rieni a Disgyblion Newydd yn Ysgol Strade – cyfle i gyfarfod ag athro dosbarth a Phennaeth Blwyddyn 7 a derbyn pecyn gwybodaeth am ddisgwyliadau'r ysgol.
- Bydd y cyd-gysylltydd pontio a'r CADY yn trafod gydag Athrawon Blwyddyn 6 a chasglu data cyrhaeddiad a gwybodaeth am anghenion a chefnidir y disgyblion gan gynnwys gwybodaeth am ddisgyblion abl a dawnus; casglu gwybodaeth am grwpiau o ffrindiau ac unrhyw faterion lles/ ymddygiadol y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth osod disgyblion mewn dosbarthiadau. Trosglwyddo'r data i'w osod mewn pecyn gwybodaeth gynhwysfawr i'w gyflwyno i staff Y Strade ar ddechrau Medi.

- Er mwyn sicrhau dilyniant ar hyd y continwmm dysgu mae'r clwstwr wedi creu llwybrau dysgu effeithiol ar gyfer Effeithiolrwydd y dysgwr, Rhifedd a Llythrennedd.
- Mae'r gwaith yma wedi ei gyd cynllunio rhwng arweinwyr Y Strade, cydlynwyr llythrennedd a rhifedd y teulu yn ogystal ag athrawon blwyddyn 6 pob ysgol.
- Er mwyn sicrhau trosglwyddiad llyfn i ddysgwyr ac i sicrhau cynnydd i bawb mae'r Strade bellach yn casglu data yn dilyn y penawdau yma cyn iddynt ddechrau ym mlwyddyn 7.
- Er mwyn sicrhau cysondeb a chyd ddealltwriaeth o gynnydd, rydym wedi cynnal gweithdai er mwyn rhannu a thrafod safon gwaith dysgwyr er mwyn sicrhau data cyson a dibynadwy.

Fframwaith Y Strade



- Sgiliau Trawsgwricwlaidd (Llythrennedd, Rhifedd)
- Sgiliau Cyfannol
- Cipro'r dysgwr cyflawn
- Seilio'r bandio ar wybodaeth bl.6 (academaidd a lles / ADY)

Effeithiolrwydd y dysgwr

- Sgiliau Cyfathrebu
- Sgiliau Meddwl
- Sgiliau Dysgu

- Darllen
- Ysgrifennu
- Rhifedd



Fframwaith Y Strade



Cynyddu eu heffeithiolrwydd fel dysgwyr trwy gyfrwng eu...

Sgiliau Cyfathrebu	Sgiliau Meddwl	Sgiliau Dysgu
Cyfathrebu	Creadigrwydd ac Arloesi	Ymateb i Adorth (CAMU) / Hunan-reoleiddio
Cydweithredu	Meddwl yn Feiriadol a Datrys Problemau	Cynllunio a Threfnu

Ystyrir y ddogfennaeth ganlynol fesul MDaPh / ddisgyblaeth;

- Sgiliau Trawsgwricwlaidd (Llythrennedd, Rhifedd, Cymhwysedd Digidol)
- Sgiliau Cyfannol
- Disgrifiadau Dysgu



Graddfa Effeithiolrwydd y Dysgwr (BL6)

Dechrau Emerging	Datblygu Developing		Mireinio Refining		Ymestyn Extending
	-	+	-	+	
Yn unol â'r dysgu disgwyliedig ym mlwyddyn 6, mae'r dysgwr yn...					
dechrau datblygu'r sgiliau a'r rhinweddau perthnasol.	datblygu'r sgiliau a'r rhinweddau perthnasol yn gyson.		parhau i freinio eu sgiliau a'u rhinweddau.		arddangos sgiliau a rhinweddau sy'n ymestyn tu hwnt i'r disgwyliad.



4. Sut y caiff anghenion dysgu a llesiant pob dysgwr unigol eu cefnogi wrth iddynt bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd?

Mae rôl y Cyd-Gysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yn allweddol bwysig yn y broses o ddatblygu'r cyswllt a'r broses bontio.

Trefnir i'r CADY:

- ymweld â phob ysgol gynradd yn ystod y flwyddyn
- trafod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion gydag athrawon Blwyddyn 5/6 a CADY yr ysgolion cynradd.
- Casglu gwybodaeth ac adroddiadau swyddogol gan y Gwasanaeth Seicolegol ac asiantaethau eraill priodol.
- Ffurio Cofrestr ADY BI 7 ar sail y wybodaeth a gesglir a throsglwyddo'r wybodaeth i Benaethiaid Adran a staff Ysgol Y Strade. Mae'r gofrestr ADY yn cynnwys gwybodaeth am anghenion addysgiadol ychwanegol, anghenion emosiynol ac ymddygiadol arbennig ac anghenion disgyblion abl a dawnus.
- Llywio cyfarfodydd CADY yn dymhorol.

5. Adolygu a monitro effaith y cynllun pontio

- Cynhelir cyfarfodydd Teulu'r Strade unwaith bob hanner tymor, sef Penaethiaid / athrawon Cynradd y dalgylch, Diprwy Bennaeth y Strade, cydgysylltydd pontio, cydgysylltydd CDP Strade ac arweinydd y Teulu ar ran y Sir. Ceir trafodaethau ar faterion cwricwlaidd, trefniadau asesu, gwybodaeth a deunyddiau pontio ynghyd â thrafodaethau am gynlluniau datblygu blynyddol a chyllid.

Camau gwella allweddol i'w cynnwys yn y cynllun pontio nesaf:

- 1.
- 2.
- 3.

Y dyddiad a fabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethu: _____ Dyddiad yr adolygiad blynyddol: _____